Ysgol Pentreuchaf

(Prifathro/Headteacher: Mr G.E Thomas)
Pentreuchaf, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DZ.
Ffôn/Tel – 01758 750 600 / 07584613603
ebost/email - : pennaeth@ysgolpentreuchaf.org
Gwefan/web: www.ysgolpentreuchaf.org

Annwyl Riant / Warcheidwad,
Dear Parent / Guardian,

Mae problem llau pen yn aml yn boen meddwl i blant ac yn sicr yn drafferth i chi fel rhieni. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r cynnydd mewn achosion o 'lau pen', rydym yn mentro awgrymu'r canlynol:

- **Dywed yr Adran Iechyd wrthym am argymell fod pawb yn archwilio gwallt eu plant yn wythnosol.**
- **Os cewch hyd i lau, rhowch wybod i'r ysgol. Bydd llythyr yn cael ei ddanfon allan i hysbysu rhieni eraill yn y dosbarth.**
- **Rhowch driniaeth i'ch plentyn. Gellir defnyddio y dull 'crib wlyb', sef brwsio gyda chrib fân trwy wallt sydd â 'conditioner' arno; defnyddio siampŵ arbennig, un ai gan y fferyllydd neu'r meddyg, neu ddefnyddio crib drydanol sydd yn lladd y llau gyda sioc drydan! Mae'r tri dull yn effeithiol.**
- **Yn achlysurol, bydd y cymorthyddion neu'r athrawon yn darganfod fod gan blant 'lau pen'. Y pryd hynny, cewch alwad ffôn i'ch hysbysu ac er mwyn lleihau'r posibilrwydd o'r llau yn cael cartref newydd ar bennau eraill yn y dosbarth, fe ofynnir i chwi fynd â'ch plentyn adref i drin ei gwallt / ei wallt.**

Os y bydd pawb yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dilyn yr awgrymiadau uchod, mae gennym siawns dda o leihau'n sylweddol yr achosion yn yr ysgol. Diolch o galon am eich cydweithrediad.

****

Having head lice can be a traumatic experience for the children as well as being an inconvenience to yourselves. In order to reduce the number of occurrences of head lice, we respectfully suggest the following:

- ***The Department of Health suggest that everyone checks their children's' hair on a weekly basis.***
- ***If you do discover head lice, please inform the school. A letter informing other parents in the class will be sent out.***
- ***Treat your child's hair immediately. You might employ the wet coming method, which entails using lots of conditioner and brushing with a fine tooth comb; you could use any of the special shampoo's available from the pharmacy or your doctor; or, alternatively, you could buy an electric comb which kills the lice by means of an electric shock! All three methods are effective.***
- ***Occasionally, the teachers or classroom assistants discover that children have head lice. On these occasions, we will telephone you to inform you of the situation and, in order to reduce the chances of head lice spreading, we will ask you to take your child home and treat his / her hair.***

If everyone were to follow these guidelines, we believe it would greatly reduce the number of cases of head lice in the school. Thank you very much for your cooperation in this matter.

Yn gywir iawn / *Yours truly*

Gethin Elis Thomas